**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pob Aelod Cynulliad

3 Awst 2018

Annwyl Aelod

Yn ystod Cwestiynau Llafar y Cynulliad ar 4 Gorffennaf, gofynnodd Steffan Lewis AC gwestiwn ynghylch cyfranogiad Llywodraeth Cymru at y 14 Gweithgor Masnach a sefydlwyd gan yr Adran Masnach Ryngwladol (DIT). Yn fy ymateb, cynigiais ysgrifennu at holl Aelodau'r Cynulliad i egluro sut y mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio â Llywodraeth y DU yn ogystal â'r gweinyddiaethau datganoledig.

I ddechrau, hoffwn i bwysleisio eto bod Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn hollbwysig bod Llywodraeth y DU yn cydweithio'n llwyr ac yn effeithiol â'r Llywodraethau Datganoledig i ddatblygu polisi masnach ac i lunio mandadau ar gyfer y trafodaethau masnach penodol a'r trafodaethau cyffredinol, er mwyn sicrhau bod cysylltiadau masnach y DU yn y dyfodol o fudd i bob rhan o'r DU. Er ein bod yn derbyn mai mater sydd heb ei ddatganoli yw masnach ryngwladol, mae'n amlwg bod materion sydd wedi'u datganoli, megis amaeth, yn cael eu cynnwys ym mholisi masnach y DU. Felly mae risgiau penodol i Gymru os na fydd polisi masnach y DU yn y dyfodol yn cynrychioli anghenion diwydiannau Cymru yn ddigonol.

Fel y gwyddoch, cytunodd yr UE a'r DU ar gyfnod pontio (ar yr amod bod y ddwy ochr yn cytuno ar gytuniad gadael terfynol) a fyddai'n para o 29 Mawrth 2019 tan 31 Rhagfyr 2020. Nes i'r cyfnod pontio hwnnw ddechrau, ni all Llywodraeth y DU negodi cytundebau masnach â gwledydd eraill. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu 14 gweithgor masnach ar draws 21 o wledydd gan gynnwys Awstralia, Seland Newydd, Tsieina a'r Unol Daleithiau.

Hyd yn hyn, nid yw'r DIT wedi gwahodd Llywodraeth Cymru i gymryd rhan mewn unrhyw un o'r grwpiau hyn. Nid yw wedi ymgynghori â ni ynghylch gwaith y grwpiau (er eu bod yn ymdrin â meysydd sydd wedi'u datganoli) nac wedi adrodd inni ar fanylion y cyfarfodydd hyn.

Mae fy swyddogion yn cymryd rhan mewn trafodaethau bord gron am faterion polisi masnach ochr yn ochr â chydweithwyr o Lywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 16 a 17 Gorffennaf. Cynhaliwyd y trafodaethau ar lefel uchel iawn ac mae fy swyddogion yn parhau i ofyn am drafodaethau sy'n fwy manwl ac ystyrlon ynghylch cysylltiadau masnach yn y dyfodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae fy swyddogion yn cysylltu'n rheolaidd â'u cymheiriaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon i drafod materion o fudd i bawb ynghylch polisi'r DU ar fasnach ryngwladol yn y dyfodol.

O ran y tymor hwy, rydym wedi gofyn sawl tro am sefydlu Cyd-bwyllgor Gweinidogion y byddai'i gylch gwaith yn cynnwys ymgynghori ar faterion masnachol rhwng y pedair gweinyddiaeth. Yn y cyfamser, fel cam dros dro, rydym wedi galw am sefydlu Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar Fasnach Ryngwladol i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli'n effeithiol. Nid yw'r DIT wedi ymateb i'r cynnig hwnnw hyd yma, ac nid yw wedi cyflwyno cynigion i sefydlu fforwm i Weinidogion i sicrhau bod unrhyw bolisi masnach a lunnir yn berthnasol i bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Mae hyn yn groes i agwedd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a sefydlodd ford gron weinidogol lle gall fy nghyd-aelod cabinet, sef Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, drafod materion â'r Ysgrifennydd Gwladol a swyddogion y Llywodraethau Datganoledig.

Fel y gwyddoch, safbwynt Llywodraeth Cymru yw y dylem sicrhau mynediad llawn a dirwystr i Farchnad Sengl yr UE. Rydym eto i gael ein hargyhoeddi bod gadael yr Undeb Tollau â'r UE o fudd inni, o leiaf yn y dyfodol agos, gan mai dyma lle y mae mwyafrif masnach Cymru yn digwydd. Rydym yn derbyn bod cyfleoedd sylweddol i fasnachu y tu allan i Ewrop ac rydym yn benderfynol o hyrwyddo masnach Cymru ar draws y byd. Fodd bynnag, os bydd Llywodraeth y DU yn gwireddu'i huchelgais i gael polisi masnachu annibynnol ôl-Brexit, mae'n rhaid cael tegwch a thryloywder yn y ffordd y mae cytundebau masnach yn y dyfodol yn cael eu llunio: ni fydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi unrhyw gytundebau masnach a fyddai'n arwain at weld Cymru mewn sefyllfa waeth.

Yn gywir



**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport